

Pecyn Dogfennau Cyhoeddus

Penallta House,
Tredomen Park,
Ystrad Mynach,
Hengoed CF82 7PG

Ty Penallta,
Parc Tredomen,
Ystrad Mynach,
Hengoed CF82 7PG



www.caerphilly.gov.uk
www.caerffili.gov.uk

Am unrhyw ymholiad yn ymwneud â'r agenda hwn cysylltwch â Charlotte Evans
(Rhif Ffôn: 01443 864210 Ebst: evansca1@caerphilly.gov.uk)

Dyddiad: Dydd Mercher, 24 Ionawr 2018

Annwyl Syr/Fadam,

Bydd cyfarfod **Cabinet** yn cael ei gynnal yn **Ystafell Sirhywi, Tŷ Penallta, Tredomen, Ystrad Mynach** ar **Dydd Mercher, 31ain Ionawr, 2018** am **2.00 pm**. i ystyried materion a gynhwysir yn yr agenda canlynol. Mae croeso i chi ddefnyddio'r iaith Gymraeg yn y cyfarfod, a dylid rhoi cyfnod rhybudd o 3 diwrnod gwaith os ydych yn dymuno gwneud hynny. Bydd cyfieithu ar y pryd yn cael ei ddarparu ar gais.

Yr eiddoch yn gywir,

Christina Harrhy
PRIF WEITHREDWR DROS DRO

A G E N D A

Tudalennau

- 1 I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb
- 2 Datganiadau o Ddiddordeb.

Atgoffi'r Cynghorwyr a Swyddogion o'u cyfrifoldeb personol i ddatgan unrhyw fuddiannau personol a/neu niweidiol mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes ar yr agenda hwn yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a'r Cod Ymddygiad ar gyfer Cynghorwyr a Swyddogion.

A greener place Man gwyrddach



I gymeradwyo a llofnodi'r cofnodion canlynol:-

3	Cynhaliwyd y Cabinet ar 13fed Rhagfyr 2017.	1 - 6
To receive and consider the following reports on which executive decisions are required: -		
4	Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol 2016-2017.	7 - 40
5	Ffioedd Claddu Plant.	41 - 48
6	Diwygiadau i Awdurdodi swyddogion o fewn Is-adran Diogelu'r Cyhoedd.	49 - 52
7	Tir yn Nheras Plasturtwyn, Llanbradach.	53 - 62
8	Tir yn Nwyrain Heol y Coroni, Lôn Drefol, Coed Duon.	63 - 70
9	Diweddariad ar Gronfeydd.	71 - 84
10	Taliadau Cyfrif Refeniw Tai - 2018/2019.	85 - 92
11	I dderbyn ac ystyried yr adroddiad(au) canlynol sydd ym marn y Swyddog Priodol yn gallu cael ei drafod pan nad yw'r cyfarfod ar agor i'r cyhoedd ac i ystyried yn gyntaf os yw lles y cyhoedd yn golygu y dylai'r cyfarfod gael ei gau i'r cyhoedd ar gyfer ystyriaeth o'r eitem(au):-	93 - 94
12	Gwaredu Tir ym Mhlwyf Datblygu Bargod i Martsons PLC.	95 - 106

Cylchrediad:

Cynghorwyr

C.J. Cuss, N. George, C.J. Gordon, Mrs B. A. Jones, P.A. Marsden, S. Morgan, L. Phipps, D.V. Poole a Mrs E. Stenner,

A Swyddogion Priodol.



CABINET

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWDYD YN NHŶ PENALLTA, TREDOMEN AR DDYDD MERCHER, 13EG RHAGFYR 2017 AM 2.00 P.M.

YN BRESENNOL

Y Cynghorydd D. Poole - Cadeirydd

Cynghorwyr:

N. George (Gwasanaethau'r Gymdogaeth), C.J. Gordon (Gwasanaethau Corfforaethol), B.A. Jones (Cyllid, Perfformiad a Llywodraethu), P. Marsden (Addysg a Chyflawniad), S. Morgan (Economi, Isadeiledd a Chynaliadwyedd), L. Phipps (Cartrefi a Lleoedd) a E. Stenner (Yr Amgylchedd a Diogelwch y Cyhoedd).

Ar y cyd gyda:

C. Burns (Prif Weithredwr Dro Dro), C. Harrhy (Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau) a D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol).

Hefyd yn Bresennol:

R. Hartshorn (Pennaeth Diogelwch y Cyhoedd), M. Godfrey (Arweinydd Tîm - Iechyd yr Amgylchedd), J. Reynolds (Rheolwr Chwaraeon a Chyfleusterau Hamdden), S. Harris (Pennaeth Cyllid Corfforaethol Dros Dro) a C. Evans (Gwasanaethau Pwyllgor)

1. YMDDIHEURIADAU DROS ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr C.J.Cuss (Gofal Cymdeithasol a Lles) a N. Scammell (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol Dros Dro a Swyddog Adran 151).

2. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Datganodd y Cynghorydd C. Gordon ddiddordeb yn yr eitem sy'n ymwneud â Dyfodol Canolfan Hamdden Pontllan-fraith . Mae manylion wedi eu cofnodi gyda'r eitem berthnasol.

3. CABINET - 15FED TACHWEDD 2017

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15fed Tachwedd 2017 (rhifau cofnod. 1 -7) a'i lofnodi fel cofnod cywir.

MATERION SYDD ANGEN PENDERFYNIADAU GWEITHREDOL

4. CYNLLUN GWEITHREDU ANSAWDD AER HAFOD-YR-YNYS.

Roedd yr adroddiad yn darparu'r Cabinet gyda'r diweddaraf ar ddatblygiad Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer Hafod-Yr-Ynys a drafft terfynol CGAA.

Nododd y Cabinet fod yr amcanion ansawdd aer nitrogen deuocsid cenedlaethol yn mynd tu hwnt i'r cyfarwyddyd ar leoliadau derbynyddion ar Heol Hafod-Yr-Ynys. Mae'n ofynnol i'r awdurdod lleol ddynodi unrhyw faes sy'n methu amcanion ansawdd aer cenedlaethol fel Ardal Rheoli Ansawdd Aer a chynhyrchu ARhAA sy'n nodi mesurau i ddod â'r llygrwr yn ôl o fewn terfynau.

Mae'r Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer ar gyfer Hafod-Yr-Ynys wedi bod drwy'r broses ymgynghori gyhoeddus. Manylwyd ar y 21 ymateb a dderbyniwyd yn Atodiad 2 o'r adroddiad. Yn dilyn y broses ymgynghori ac yng ngoleuni'r ymatebion, mae drafft terfynol y CGAA wedi'i ddiweddarau a'i atodi i'r adroddiad. Er nad yw'r ymatebion i'r ymgynghoriad sydd wedi'u derbyn wedi newid cynnwys cyffredinol y cynllun, gwnaed mân newidiadau.

Datganwyd Ardal Rheoli Ansawdd Aer Hafod-Yr-Ynys ym mis Tachwedd 2013 yn dilyn Asesiad Manwl a oedd yn cadarnhau bod y canlyniadau monitro yn parhau i fethu â'r amcan ansawdd aer ar gyfer nitrogen deuocsid. Cynhaliwyd Adroddiad Asesu Pellach a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2015. Ymgwymerwyd â monitro, modelu ac asesu ansawdd aer pellach ar ôl cwblhau gwelliannau Cyffordd Crymlyn gwerth £1.3 miliwn.

Cynhaliwyd cyfarfod grŵp llywio ansawdd aer gyda thrigolion Hafod-yr-ynys a rhanddeiliaid allweddol ar 9 Mawrth 2017 lle bu swyddogion yr awdurdod yn trafod cynnwys y cynllun gweithredu drafft. Dechreuodd y broses ymgynghori drafft ar gynllun gweithredu ansawdd aer ym mis Mehefin 2017 a daeth i ben ar 31 Awst 2017. Derbyniodd y Cyngor 21 ymateb i'r ymgynghoriad a gafodd ei grynhoi yn Atodiad 2 o'r adroddiad. Doedd dim argymhellion i gael gwared ar unrhyw opsiynau arfaethedig. Fodd bynnag, mae rhinweddau'r awgrym gan lechyd Cyhoeddus Cymru y dylid ystyried cyflwyno parth allyriadau isel yn cael eu hasesu o hyd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi argymhell bod yr awdurdod yn ymgymryd â monitro traffig ac ansawdd aer ymhellach yn yr ardal er mwyn mireinio'r model ansawdd aer yn well. Derbyniwyd y byddai ansawdd aer a data traffig mwy manwl yn dod â gwell dealltwriaeth o'r sefyllfa welliant presennol, nid yn unig o ran dosraniad ffynhonnell gyffredinol, ond o ran y proffil allyriadau sy'n gysylltiedig â dosbarthiadau cerbydau penodol. O ganlyniad, mae tiwbiau gwasgaru nitrogen deuocsid ychwanegol wedi'u lleoli yn yr ardal ac mae opsiynau ar gyfer gorsaf fonitro ansawdd aer parhaus ychwanegol hefyd yn cael eu harchwilio. Cynhaliwyd arolwg monitro allyriadau yn ddiweddar gyda'r bwriad o ddarparu dadansoddiad o fathau / niferoedd y cerbydau sy'n arwain at fwy o grynodiadau. Mae cynigion ar gyfer arolwg manylach, gan gynnwys cyflymder manwl, hyd ciw a chyfansoddiad fflyd hefyd yn cael eu datblygu ynghyd ag arolwg tarddiad a chyrchfan ar raddfa eang i ddeall defnyddwyr cerbydau'r llwybr a sut y gallai ymddygiad newid o ganlyniad i fesurau posibl.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn Adroddiad y Swyddog: -

- (i) fod y Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer Hafod-Yr-Ynys drafft, fel yr atodwyd yn yr adroddiad i gael ei nodi;
- (ii) y dylid ceisio am gefnogaeth ariannol gan Lywodraeth Cymru er mwyn ariannu ateb hirdymor

(iii) cyflwyno adroddiad pellach i'r Cabinet ar gyflwyno'r Cynllun Gweithredu.

5. DYFODOL CANOLFAN HAMDDEN PONTLLAN-FRAITH

Datganodd y Cynghorydd C. Gordon ddiddordeb (gan ei fod yn Ddefnyddiwr Gwasanaeth yng Nghanolfan Hamdden Pontllan-fraith) a gadawodd y cyfarfod wrth ystyried yr eitem hon.

Rhoddodd yr adroddiad, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Craffu Adfywio a'r Amgylchedd ar 12fed Rhagfyr 2017 ddiweddariad i'r Cabinet ar ganlyniad yr ymgynghoriad a wnaed mewn perthynas â chau posib Canolfan Hamdden Pontllan-fraith ac i sicrhau penderfyniad ar ddyfodol y ganolfan. Ystyriodd y Cabinet adroddiad ar 20fed Medi 2017 lle penderfynwyd cychwyn ar ymarfer ymgynghori ar gau Canolfan Hamdden Pontllan-fraith ac i ystyried adroddiad pellach ar ôl i'r ymgynghoriad gael ei gwblhau. Argymhellodd y Pwyllgor hefyd pe bai'r cynnig am Gyllid Ysgolion 21^{ain} Ganrif i ddarparu cae 3G yn Ysgol Gyfun Coed Duon yn aflwyddiannus, dylid archwilio ffynonellau cyllid eraill.

Ystyriodd y Cabinet adroddiad ar 20fed Medi 2017 lle penderfynwyd cychwyn ar ymarfer ymgynghori ar gau Canolfan Hamdden Pontllan-fraith ac i ystyried adroddiad pellach ar ôl i'r ymgynghoriad gael ei gwblhau.

Nodwyd bod y broses ymgynghori wedi cychwyn ar 9 Hydref 2017 am gyfnod o 4 wythnos, a ymestynnwyd yn ddiweddarach am bythefnos arall, yn dilyn argymhelliad gan y Pwyllgor Craffu Adfywio a'r Amgylchedd. Roedd y broses ymgynghori yn cynnwys hysbysiadau yn y Ganolfan Hamdden, ffurflenni sylwadau papur, hysbysiad o'r ymgynghoriad ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, holiadur ar-lein, 2 gyfarfod cyhoeddus, cynigwyd cyfarfodydd gydag Aelodau Ward lleol, hysbyswyd y Cynghorau Cymunedol a Thref yn yr ardal yn gofyn am eu barn, ymgynghori â'r Pwyllgor Craffu Adfywio a'r Amgylchedd a thrafodaethau gyda'r staff a'r Undebau Llafur.

Roedd yr adroddiad yn manylu ar 3 chwestiwn ymgynghori, gan gynnwys effaith cau Canolfan Hamdden Pontllan-fraith ar ddefnyddwyr, p'un a oedd darpariaeth arall ar gael a sut y gellid lleihau effaith y cau ymhellach. Nododd y Cabinet mai rhai o'r themâu allweddol a ddaeth o ganlyniad i'r ymgynghoriad oedd y byddai pobl yn gorfod teithio ymhellach i wasanaethau eraill, colli'r cae 3G ar y safle ac effeithio ar y timau sy'n defnyddio'r safle ar gyfer gemau cystadleuol uwch, effaith twf tai yn yr ardal ar ddarpariaeth gwasanaeth eraill, effaith ar ddefnyddwyr hŷn y cyfleuster ac effaith ar y dosbarthiadau ffitrwydd a ddarperir ar hyn o bryd.

Sicrhodd swyddogion y Cabinet bod gwaith sylweddol wedi cael ei ymgymryd â, yn dilyn yr ymgynghoriad er mwyn cwrdd a mynd i'r afael a phryderon a godwyd, fel dosbarthiadau a chyfleusterau hamdden eraill a adnabuwyd o fewn yr ardal leol, yn ogystal â thrafodaethau parhaus â Chanolfan Hamdden Trecelyn ac Ysgol Gyfun Trecelyn er mwyn darparu ar gyfer dosbarthiadau llawn amser. Mae datblygiad cae 3G yn Ysgol Gyfun Coed Duon wedi cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru fel rhan o'r cynnig Ysgolion 21^{ain} Ganrif, mae lle i gadw'r cae 3G ar waith tan 31ain Mawrth 2018 a chynnwys gosod rhwystrau ar Gae 3G Ysgol Uwch Islwyn er mwyn cynnal gemau cystadleuol uwch.

Yn ogystal, gofynnwyd i'r Cabinet ystyried cais gan y Cynghorydd K. Etheridge i gynnal refferendwm lleol yn ardal Pontllan-fraith a Choed Duon ar gau'r Ganolfan Hamdden, oherwydd y teimlad cryf a chynrychiolaeth y cyhoedd ar y cynnig. Nododd yr aelodau fod y cynnig hefyd yn cael ei ystyried yn y Pwyllgor Craffu ac na chafodd ei gefnogi. Yn dilyn ystyriaeth y Cabinet, cytunwyd yn unfrydol na fyddai refferendwm yn briodol yn dilyn y broses ymgynghori helaeth a gynhaliwyd.

Diolchodd y Cabinet i'r Swyddogion am yr adroddiad helaeth a gofynnwyd am sicrwydd y cynhaliwyd ymgynghoriad manwl, a bod pob darpariaeth amgen posibl wedi cael ei archwilio,

gan gyfeirio'n benodol at ddsbarthiadau yn ystod y dydd, gan gynnwys loga, sy'n cael ei gyflwyno ar hyn o bryd yn y Ganolfan Hamdden. Sicrhawyd yr Aelodau y gellir cynnwys dosbarth loga yng Nghanolfan Hamdden Trecelyn ac mae trafodaethau pellach ar y gweill gydag Ysgol Gyfun Trecelyn, Ysgol Uwch Islwyn a Sefydliad y Glowyr Coed Duon er mwyn cyfaddasu ar gyfer darpariaeth. Sicrhawyd y Cabinet bod ymgynghoriad wedi cael ei ymgymryd gyda'r defnyddwyr a'r gymuned leol, a lle bo'n bosibl, rhoddwyd darpariaethau mewn lle i liniaru'r effaith ar ddefnyddwyr gwasanaeth.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad a gynhwysir yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a oedd yn adroddiad y Swyddogion, fod yr argymhellion a wnaed yn yr Archwilad fel yr amlinellwyd yn y cyfarfod:-

- (i) cau Canolfan Hamdden Pontllan-fraith yn cael ei gytuno;
- (ii) mae'r cae 3G yn parhau i gael ei ddefnyddio tan 31ain Mawrth 2017 a bod y rhaglen dymchwel safle yn cael ei reoli i ddarparu ar gyfer hyn;
- (iii) cytunir y dylid gosod rhwystrau ar gae 3G Ysgol Uwch Islwyn i ganiatáu gemau cystadleuol uwch i gael eu chwarae a bod y Gronfa Cyfadran Cymunedau yn cael ei ddefnyddio i ariannu hyn;
- (iv) cymeradwyo'r broses o drosglwyddo archebiadau'r Neuadd Chwaraeon i Ysgol Uwch Islwyn o Ionawr 2018, yn amodol ar gytundeb terfynol Corff Iywodraethol yr ysgol;
- (v) cytunir ar ddatblygu Ffordd Goedwig Cwmcarn i ganiatáu adleoli Gwasanaeth Antur Caerffili;
- (vi) y gwaith ar Safle Cwmcarn (£75mil - £85mil) yn cael ei ariannu gan Gronfa yfadran Cymunedau;
- (vii) y dylai, pe bai'r cynnig am Gyllid Ysgolion 21 ain Ganrif i ddarparu cae 3G yn Ysgol Gyfun Coed Duon yn aflwyddiannus, dylid archwilio ffynonellau cyllid eraill.

6. SAIL TRETH Y CYNGOR 2018-2019

Fe wnaeth yr adroddiad geisio cael cymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer cyfrifiad Sylfaen Treth y Cyngor ar gyfer 2018/19.

Sail Treth y Cyngor yw'r swm sy'n ofynnol gan Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 i'w ddefnyddio wrth gyfrifo Treth y Cyngor. Y sylfaen ar gyfer anheddau y gellir codi tâl arnynt gyda disgownt wedi'i fynegi fel cyfwerth Band D wedi cael ei gyfrifo ar 61,797.95 ar gyfer 2018/19, sy'n gynydd o 0.43% ar 2017/18.

Ar gyfer 2017/18 tybiwyd graddfa gasglu o 97% ac argymhellwyd bod yr un gyfradd yn cael ei ragdybio ar gyfer 2018/19. Bydd hyn yn arwain at ffigwr sylfaenol wedi'i addasu o 59,944.01. Nododd y Cabinet fod yr Awdurdod yn mynd ati'n rhagweithiol yn dilyn ôl-ddyledion Treth y Cyngor a bod gwir ffigwr Treth y Cyngor a gasglwyd fel arfer yn fwy na 99% dros gyfnod o 2 i 3 blynedd.

Mae sylfaen Treth y Cyngor yn un o'r ffactorau a fydd yn pennu Setliad Llywodraeth Leol Terfynol 2018/19, a bydd y manylion yn cael eu cyhoeddi ar 20fed Rhagfyr 2017.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn

cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn Adroddiad y Swyddog: -

- (i) mae'r gyfradd casglu Treth y Cyngor o 97% yn aros yr un peth ar gyfer 2017/18;
- (iii) Sylfaen Treth y Cyngor am y flwyddyn 2018/19 fydd £59,994.01, gyda Sylfaen Treth y Cyngor ar gyfer pob ardal cyngor cymuned fel yr amlinellir ym mharagraff 4.4.

7. ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB REFENIW AWDURDOD CYFAN CANOL-BLWYDDYN 2017/18

Roedd yr adroddiad yn rhoi manylion i'r Cabinet am wariant refeniw cyllid awdurdod cyfan rhagamcanedig ar gyfer blwyddyn ariannol 2017/18.

Nododd y Cabinet fod yr adroddiad wedi cael ei drafod yn fanwl yn y Pwyllgor Craffu a theimlai'r Pwyllgor nad oedd digon o ymgynghoriad wedi'i gynnal gydag Aelodau'r Ward ynghylch y bwriad i gau. Fodd bynnag, pwysleisiwyd bod y rhan fwyaf o'r tanwariant hwn yn deillio o swyddi gwag sy'n cael eu cynnal i gefnogi gofynion arbedion Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn y Gyfadran Gwasanaethau Corfforaethol yn y dyfodol, ac o danwariant mawr o £1311m mewn Cyllid Amrywiol yn bennaf oherwydd bod gofynion benthyca yn cael eu gohirio ac enillion gwell ar fuddsoddiadau.

Nododd y Cabinet hefyd y rhagwelir gorwariant mewn Addysg a Dysgu Gydol Oes a Gwasanaethau Cymdeithasol, sy'n dangos bod y sefyllfa ariannol bellach yn dod yn llawer mwy heriol. Rhoddodd yr adroddiad fanylion sylweddol ar y gorwariant a ragamcanwyd a thanwariant ar draws meysydd gwasanaeth ac amlygodd y Pennaeth Cyllid Corfforaethol Dros Dro'r meysydd hynny lle rhagwelir y gorwariant mwyaf arwyddocaol.

Roedd y cyllidebau a gymeradwywyd ar gyfer 2016/17 a 2017/18 yn cynnwys twf cyfanswm o £6m i'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Fodd bynnag, rhagamcanir gorwariant cyffredinol o £1.520m ar hyn o bryd ar gyfer y Gyfadran. Yr ardal gorwariant mwyaf arwyddocaol yn ymwneud â lleoliadau plant lle rhagwelir y bydd gwariant ar hyn o bryd yn fwy na chyllidebau o £2.754m. Mae'r rhagolwg hwn yn tybio y bydd yr holl leoliadau presennol yn parhau mewn lle trwy gydol y flwyddyn ariannol ond bydd pob ymdrech yn parhau i gael ei wneud i nodi trefniadau mwy cost effeithiol lle bynnag y bo modd.

Ar hyn o bryd mae Addysg a Dysgu Gydol Oes yn rhagweld gorwariant net cyffredinol o £34mil. Y pwysau mwyaf arwyddocaol yw cyllideb Addysg Heblaw am yr Ysgol lle rhagwelir gorwariant o £781mil. Mae'r ddarpariaeth hon yn parhau i dderbyn nifer gynyddol o atgyfeiriadau ar gyfer plant ag ymddygiad heriol. Mae adolygiad mewnol o'r galw a'r costau yn parhau ond pwysleisiwyd, er bod hyn yn orwariant sylweddol, byddai'r gost yn llawer mwy pe bai disgyblion yn cael eu lleoli mewn lleoliadau y Tu Allan i'r Sir.

Yn gyffredinol, mae'r Gyfadran Cymunedau'n rhagweld tanwariant o £233mil. Y prif bwysau cost yn yr ardal hon yw Gwasanaethau Rheoli Gwastraff a Glanhau lle rhoddir gwybod am orwariant net o £382mil.

Mae gorwariant disgwylidig mewn triniaeth ailgylchu sych o £326mil, er bod hyn wedi lleihau'n sylweddol ar flynyddoedd blaenorol oherwydd cychwyn y contract ailgylchu sych newydd ym mis Gorffennaf 2017.

Hefyd mae gorwariant rhagamcanol o £126mil mewn perthynas â Safleoedd Amwynderau Dinesig, yn bennaf oherwydd cynnydd mewn tunelli o wastraff a chostau rhedeg. Mae costau rhedeg cerbydau ar gyfer yr holl rowndiau casglu yn dangos gorwariant o £265mil mewn perthynas ag atgyweiriadau, yswiriant cerbydau a thanwydd. Bydd y gorwariant hwn yn cael

ei wrthbwysu'n rhannol gan ostyngiad disgwylledig mewn caffael cerbydau'r flwyddyn ariannol hon a thanwariant staffio net o £362mil yn bennaf oherwydd swyddi gwag mewn glanhau strydoedd.

Mae yna gronfa untro corfforaethol wrth gefn o £800mil er mwyn darparu cefnogaeth dros dro ar gyfer pwysau costau mewn rheoli gwastraff. Nid yw'r arian hwn yn cael ei ryddhau ar hyn o bryd gan fod y Gyfadran Cymunedau yn rhagweld gwarged bach cyffredinol ar ei gyllideb referniw ar gyfer 2017/18.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddogion, fod cabinet yn nodi'r wybodaeth sydd ynddo.

EITEMAU EITHRIO

Fe wnaeth yr aelodau ystyried brawf diddordeb y cyhoedd a daethant i'r canlyniad ar ôl ystyriaeth fod diddordeb y cyhoedd wrth gynnal yr eithriad yn gorbwysu diddordeb y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth a:

PENDERFYNWYD yn unol â'r Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 bod y cyhoedd yn cael eu heithrio o weddill y cyfarfod oherwydd y tebygolrwydd fod gwybodaeth eithredig yn cael eu datgelu fel y diffinir ym maragraffau 14 o Atodlen 12A o'r Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

8. DILEU DYLEDION DROS £20,000 - ÔL-DDYLEDION AAG

Ar 15fed Medi 2009, fe wnaeth y Cabinet gymeradwyo dull dilead diwygiedig ar gyfer dyledion sydd yn berthnasol, lle mae dyled yr unigolion yn fwy na £20,000.

Roedd yr adroddiad yn ceisio am gymeradwyaeth y Cabinet i ddileu dyled sy'n ddyledus sydd yn fwy na £20,000

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad a gynhwyswyd yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog, fod yr argymhellion a gynhwysir yn 10.1 o'r adroddiad yn cael eu cymeradwyo.

Terfynwyd y cyfarfod am 3.05 p.m.

Cymeradwywyd a llofnodwyd ei fod yn gofnod cywir yn amodol ar unrhyw gywiriadau a wnaed yn y cyfarfod a gynhelir ar 13eg Rhagfyr 2017.

CADEIRYDD



ADRODDIAD I'R CABINET – 31AIN IONAWR 2018

PWNC: ADRODDIAD CYDRADDOLDEB BLYNYDDOL 2016-2017

ADRODDIAD GAN: CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL, GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Rhoi gwybod i'r Cabinet am y cynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn ariannol 2016-2017 yn erbyn targedau yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol cyfredol y Cyngor, ac yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i'w gyflwyno i'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a'i gyhoeddi ar-lein.

2. CRYNODEB

2.1 Mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol i gynhyrchu adroddiad monitro blynyddol ar faterion Cydraddoldeb dan y ddeddfwriaeth bresennol. Mae'r gofynion yn fanwl iawn o ran pa wybodaeth berthnasol sydd angen ei chynnwys yn yr adroddiad monitro a gwella blynyddol (ynghlwm yn llawn fel atodiad).

2.2 O ganlyniad, mae'r swm o wybodaeth a gyflwynir er mwyn sicrhau bod y corff rheoleiddio sy'n gysylltiedig (y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol) yn cael eu darparu gyda thystiolaeth llawn o gydymffurfiaeth ac ymrwymiad y Cyngor i'r dyletswyddau statudol hynny.

3. CYSYLLTIADAU Â'R STRATEGAETH

3.1 Mae materion cydraddoldeb yn themâu trawsbynciol o'r Nodau Llesiant o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac yn effeithio ar bob polisi, swyddogaeth a gweithdrefn, gan gwmpasu'r rhai sydd wedi'u hanelu at y polisiâu cyhoeddus a mewnol sy'n cwmpasu aelodau staff y Cyngor. Mae'r adroddiad yn cyfrannu at y Nodau Llesiant canlynol:

- Cymru Fwy Cyfartal
- Cymru o Gymunedau Cydlynol
- Cymru o ddiwylliant bywiog a'r iaith Gymraeg yn ffynnu

3.2 Mae yna hefyd nifer o strategaethau neu reoliadau cenedlaethol Llywodraeth Cymru y mae gwaith Cydraddoldeb y Cyngor yn cysylltu â hwy; "**Cymru'n Cyd-dynnu**" (Strategaeth Cydlyniant Cymunedol Cymru Gyfan); "Mynd i'r Afael â Throseddau Casineb a Digwyddiadau: Fframwaith ar gyfer Gweithredu"; "**Teithio at Ddyfodol Gwell**" - Fframwaith Gweithredu a Chynllun Cyflenwi ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr; "Cymraeg 2050: Strategaeth yr Iaith Gymraeg"; ac amrywiol agweddau ar Reoliadau Cynllunio, Trwyddedu ac Adeiladu.

4. YR ADRODDIAD

- 4.1 O dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Gyhoeddus yng Nghymru, rhaid cyhoeddi adroddiad blynyddol ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol unrhyw bryd yn ystod y 12 mis ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad hwnnw'n ymdrin â hi.
- 4.2 Wedi'i atodi at yr adroddiad hwn yw'r Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol ar gyfer 2016-2017.
- 4.3 Yn gryno fodd bynnag, dylid nodi'r wybodaeth berfformiad ganlynol sy'n cwmpasu'r flwyddyn ariannol dan sylw:
- Cyflwynwyd **370** o wersi i dros 9,000 o fyfyrwyr yn 2016-2017 i ysgolion yn y fwrdeistref sirol o dan Raglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan (RhGCYCG).
 - Defnyddiwyd **£200,000** o gyllid i uwchraddio eiddo ar draws y fwrdeistref sirol, a oedd yn cynnwys -
 - 2 adeilad corfforaethol CBS Caerffili
 - 2 leoliad cefn gwlad
 - 3 chanolfan gymunedol
 - 1 ganolfan addysg gymunedol
 - 8 llyfrgell
 - 3 chanolfan hamdden
 - 12 Ysgol
 - 1 safle twristiaeth
 - Lansiad Strategaeth yr Iaith Gymraeg gan Alun Davies AC ym mis Mehefin yn Ffiliffest.
 - Creu Grŵp Ieuencid LHDTTC+ a nodwyd fel un o flaenoriaethau'r Fforwm Ieuencid. Ar hyn o bryd, mae 36 o bobl ifanc yn mynychu'r grŵp.
 - Amgueddfa'r Tŷ Weindio oedd yr Amgueddfa gyntaf yng Nghymru i gael ei chydabod fel sefydliad Dementia Gyfeillgar ynghyd â Sefydliad y Glowyr Coed Duon.

5. LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL

- 5.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyfrannu at y Nodau Llesiant fel y'u nodir yn y Dolenni i'r Strategaeth uchod, yn enwedig y cyfrifoldeb a roddir ar gyrf cyhoeddus i gyfrannu at Gymru fwy cyfartal, Cymru o gymunedau cydlynol a Chymru o diwylliant bywiog a'r iaith Gymraeg yn ffynnu. Mae'r adroddiad yn adlewyrchu bod yr awdurdod wedi cynnwys pobl sydd â diddordeb yn lles yr ardal, gan gynnwys grwpiau sy'n cynrychioli trigolion â nodweddion gwarchoddedig. Rydym wedi cydweithio drwy'r Grŵp Mynediad i Bobl Anabl gyda'r nod o sicrhau ein bod yn cydnabod y materion sy'n wynebu rhai grwpiau ac i'w hatal rhag methu â chael mynediad i'n gwasanaethau yn gyfartal. Drwy ein prosesau cynllunio busnes blynyddol a hunan arfarnu, mae meysydd gwasanaeth wedi ystyried goblygiadau cydraddoldeb a'r gallu i ddiwallu anghenion ein trigolion.

6. GOBLYGIADAU CYDRADDOLDEBAU

- 6.1 Cynhaliwyd asesiad ac ymgynghoriad Cydraddoldeb llawn ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol wrth ei ddatblygu, felly ni wnaethpwyd asesiad llawn ar yr adroddiad blynyddol hwn. Mae'r adroddiad ei hun yn asesiad o gyflawniadau a wnaed gan y Cyngor o dan y cynllun.

7. GOBLYGIADAU ARIANNOL

- 7.1 Nid oes goblygiadau ariannol uniongyrchol i'r adroddiad hwn gan fod yr adroddiad blynyddol yn cwmpasu'r gwaith a wnaed eisoes yn y flwyddyn ariannol flaenorol.

8. GOBLYGIADAU PERSONÉL

- 8.1 Nid oes goblygiadau personél i'r adroddiad hwn, er bod hyn yn parhau i gael ei adolygu wrth i'r gwaith a bennir yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol fynd yn ei flaen.

9. YMGYNGHORIADAU

- 9.1 Mae'r adroddiad yn seiliedig ar ddata a gasglwyd ar draws y meysydd gwasanaeth wrth weithredu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn ystod 2016/2017. Roedd nifer o'r swyddogion a ddangosir ar ddiwedd yr adroddiad hwn yn ymgynghoreion, ac felly gwnaethant gyfrannu gwybodaeth adrodd benodol ar gyfer gwahanol adrannau yn yr adroddiad blynyddol llawn.
- 9.2 Anfonwyd yr adroddiad hwn at yr Ymgynghoreion a restrir isod ac mae'r holl sylwadau a dderbyniwyd wedi'u hadlewyrchu yn yr adroddiad hwn.

10. ARGYMHELLION

- 10.1 Argymhellir bod y Cabinet yn nodi cynnwys yr adroddiad blynyddol hwn ac yn cymeradwyo cyflwyno'r wybodaeth hon i'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ac i'w gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

11. RHESYMAU DROS YR ARGYMHELLION

- 11.1 Drwy gasglu'r holl wybodaeth ofynnol ynghyd yn yr adroddiad hwn o feysydd gwasanaeth y Cyngor ac o weithio mewn partneriaeth, ac wedyn eu cyhoeddi, mae'r Cyngor yn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'i ddyletswyddau statudol o dan y ddeddfwriaeth Cydraddoldebau cyfredol.
- 11.2 Yn bwysicach fyth, mae'r adroddiad hefyd yn dangos faint o waith cadarnhaol ac arfer da mae'r Cyngor yn eu cyflawni er budd yr unigolion a'r grwpiau hynny sy'n dod o dan un neu ragor o'r nodweddion gwarchoddedig a materion Cydraddoldeb ehangach.

12. PŴER STATUDOL

- 12.1 Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011
Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
Deddf Hawliau Dynol 1998
Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011

Awdur: Anwen Cullinane, Uwch Swyddog Polisi (Cydraddoldeb a'r Gymraeg)
Est. 4404 cullima@caerffili.gov.uk

Ymgynghoreion: Y Cyng. Barbara Jones (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabined dros Wasanaethau Corfforaethol)
Y Cyng. James Pritchard (Pencampwr Cydraddoldeb Aelodau)
David Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol)
Robert Hartshorn (Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd)

Richard M Harries (Dirprwy Swyddog Monitro Dros Dro)
Kathryn Peters (Rheolwr Polisi Corfforaethol)
Ros Roberts (Rheolwr Perfformiad)
Lynne Donovan (Pennaeth Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol Dros Dro)
Keri Cole (Prif Swyddog Addysg)
Mark Williams (Pennaeth Gwasanaethau Eiddo Dros Dro)
Paul Taylor (Swyddog Datblygu Chwaraeon - Chwaraeon Anabledd a Dyfodol Cadarnhaol)
Christopher Hunt (Cydlynnydd Cydlyniant Cymunedol - Gorllewin Gwent)

Papurau
Cefndir:

Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-2020
Amcanion a Chynllun Gweithredu Cydraddoldeb a'r Gymraeg 2016-2020
Amrywiol Ddogfennau Canllawiau
(Mae'r rhain ar gael yn electronig ar gyfer gwybodaeth ar y tudalennau perthnasol ar www.caerffili.gov.uk/cydraddoldeb)

Atodiadau:
Atodiad 1

Cynllun Cydraddoldeb Strategol - Adroddiad Monitro a Gwelliant Blynyddol 2016-2017

Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Adroddiad Monitro a Gwelliant Blynyddol 2016 - 2017

Mae'r Cyngor hwn yn cydnabod bod gan bobl anghenion, gofynion ac amcanion gwahanol a byddwn yn gweithio'n weithredol yn erbyn pob math o wahaniaethu drwy hybu cysylltiadau da, a pharch at ein gilydd yn ein holl gymunedau, trigolion, aelodau etholedig, ymgeiswyr am swyddi a'n gweithlu, a rhyngddynt.

Byddwn hefyd yn gweithio i greu mynediad cyfartal i bawb i'n gwasanaethau, beth bynnag fo'u tarddiad ethnig, rhyw, oed, statws priodasol, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd, ailbennu rhywedd, crefydd a chred neu ddi-gred, defnydd o'r Gymraeg, iaith Arwyddion Prydain neu unrhyw iaith arall, cenedl, cyfrifoldeb am bobl ddibynnol neu unrhyw reswm arall na all gael ei gyfiawnhau.

Cyhoeddwyd **XX Ionawr** 2018

A greener place
Man gwyrddach



Cynnwys

Adran	Tudalen
Cyflwyniad	1
1. Asesiadau Effaith Cydraddoldeb Trosolwg o effeithiolrwydd cynyddol y broses AEC o fewn y Cyngor yn ystod 2016-2017	2
2. Bwlio Gwahaniaethol mewn Ysgolion Adrodd ar a Monitro Bwlio Gwahaniaethol mewn Ysgolion 2016-2017	3
3. Mynediad Corfforol Rhaglen Waith Hygyrchedd Anabledd	6
4. Teilwra Gwasanaethau a) Chwaraeon Anabledd – Gwasanaethau Hamdden b) Safonau'r Iaith Gymraeg c) Pride Cymru 2016 – Cyngorau Balch ch) Grŵp Ieuenctid LHDTG+ d) Cefnogi Cyfamod y Lluoedd Arfog dd) Cefnogi Cymunedau Oed-gyfeillgar e) Diwrnod Cofio'r Holocaust f) Cydlyniant Cymunedol	7
5. Y Rhaglen Hyfforddiant Trosolwg o'r flwyddyn academaidd 2016-2017	17
6. Amrywiaeth yn y Gweithle Gwelliannau i'r Data Cyflogres CBSC	19
7. Canllawiau Staff Creu a diweddarau Dogfennau Canllaw CBSC yn unol â deddfwriaeth a) Goblygiadau Cydraddoldeb mewn Adroddiadau Pwyllgor 2017 b) Porthol yr Uned Polisi Corfforaethol	20
8. Hunanwerthuso gan Fannau Gwasanaeth Diweddariad ar newidiadau yn y modd y mae manau gwasanaeth y Cyngor yn edrych ar eu perfformiad eu hunain o ran Cydraddoldeb a'r Gymraeg	22
9. Data Cwynion Dadansoddiad o'r cwynion a dderbyniwyd yn ystod 2016-2017	23
Atodiad A - Data Cyflogres CBSC - Cyfansymiau Corfforaethol	25

Cyflwyniad

Mae'n ofynnol i'r cyngor o dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 i gynhyrchu adroddiad monitro blynyddol ar y camau y mae wedi cymryd er mwyn cwrdd â dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus a'i Amcanion Cydraddoldeb ei hun. Llywodraeth Cymru oedd y llywodraeth gyntaf i osod dyletswyddau penodol ar wasanaethau cyhoeddus a oedd yn mynd ymhellach na hynny oedd o fewn y Ddeddf. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i ystyried sut i gyfrannu'n gadarnhaol at gymdeithas decach trwy ddarparu gwasanaeth a rhoi sylw dyladwy i ddileu gwahaniaethu. Mae'r dyletswyddau penodol yn cynnwys;

- creu adroddiad blynyddol
- asesiadau effaith cydraddoldeb
- gwahaniaethau mewn cyflog
- cyhoeddi Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol
- gwybodaeth am y gweithlu
- ymgysylltu
- gwybodaeth gydraddoldeb
- caffaeliad
- hyfforddiant staff

Mae gwaith cydraddoldeb wedi parhau i gael ei brif ffrydio yn ystod 2016-2017, ac mae adrannau'r adroddiad hwn yn edrych ar gynnydd y cyngor yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae nifer o astudiaethau achos yn cael eu cynnwys i ddangos y gwaith y mae'r meysydd gwasanaeth wedi eu gwneud er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth a gwella'r ddarpariaeth gwasanaeth o flwyddyn i flwyddyn.

Mae'r Cyngor yn parhau i weithio mewn partneriaeth â sefydliadau ac mae rhai ohonynt yn aelodau o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerffili, sy'n dod â chyrff cyhoeddus at ei gilydd i er mwyn gweithio i wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Bwrdeistref Sirol Caerffili. Maent yn gyfrifol, o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), i oruchwylio datblygiad y Cynllun Llesiant Lleol newydd, o'r sectorau cyhoeddus, iechyd, gwirfoddol a phreifat a pharhau i fod yn greadigol ac arloesol wrth gyflawni yn erbyn eu dyletswyddau statudol.

Mae llawer iawn o wybodaeth sy'n ymwneud â Chydraddoldeb y Cyngor eisoes wedi'i gyhoeddi yn fanylach ar dudalennau Cydraddoldeb gwefan y Cyngor, lle gallwch hefyd lawrlwytho fersiwn pdf o'r adroddiad hwn:- www.caerffili.gov.uk/cydraddoldeb.

Mae'r Cyngor yn parhau i fod yn ymrwymedig i sicrhau bod pawb o fewn bwrdeistref sirol Caerffili yn cael eu trin â pharch cyfartal ac nad yw eu hamgylchiadau unigol yn rhwystr iddynt gael y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt oddi wrth y Cyngor neu ei bartneriaid.

Er mwyn i'r Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb hwn gael ei ystyried yn briodol, fe'i cymerwyd trwy broses cytuno mewnol drwy'r Cabinet ar 31^{ain} Ionawr 2018. Yna bydd yr adroddiad blynyddol yn cael ei gyflwyno i Swyddfa'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol erbyn 31^{ain} Mawrth 2018.

Cynghorydd David Poole
Arweinydd y Cyngor
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Christina Harrhy
Prif Weithredwr Dros Dro
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

1. Aseidiadau Effaith Cydraddoldeb

Trosolwg o effeithiolrwydd cynyddol y broses AEC o fewn y Cyngor yn ystod 2016-2017

Mae Aseidiadau Effaith Cydraddoldeb (AEC) sy'n ymdrin â materion Cydraddoldeb a'r Gymraeg yn cael eu cynnal ar bolisiâu corfforaethol a dechreuodd y cynnydd hwn weithredu'n llawn ym mis Chwefror 2012, o'r adeg pan oedd angen i bob adroddiad y cyngor gynnwys pennawd Goblygiadau Cydraddoldeb.

Gan fod AECau yn ofyniad y **Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-2020** a **Safonau'r Iaith Gymraeg (88, 89 a 90)**, mae gan y Cyngor ffurflen asesu integredig er mwyn sicrhau dull cyson.

Mae arweiniad cyffredinol ar Gydraddoldeb ar Gymraeg ar gael ar y porthol ar y fewnwyd ar gyfer staff, yn y ddogfen ganlynol:



Mae aseidiadau effaith yn rhan o gyfres o ddigwyddiadau y mae'n rhaid i ddigwydd er mwyn ymgorffori materion Cydraddoldeb a'r Gymraeg yn llawn ac roedd felly angen diweddarau Canllawiau Ymgynghori a Monitro Cydraddoldeb 2016 hefyd er mwyn atgyfnerthu'r arfer bod ymgynghori priodol a llawn gyda grwpiau ac unigolion sy'n cynrychioli gwahanol nodweddion gwarchodedig yn helpu i wneud y broses AEC bod llawer mwy cadarn a syml.

Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'r Cynllun Gweithredu i'w cael ar wefan y Cyngor ac ar gael i staff ar borthol yr Uned Polisi Corfforaethol gyda'r canllaw Goblygiadau Cydraddoldeb mewn Adroddiadau Pwyllgor fel dogfen ategol.

2. Bwlio Gwahaniaethol mewn Ysgolion

Adrodd ar a Monitro Bwlio Gwahaniaethol mewn Ysgolion 2016-2017

Yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-2020 mae gennym Amcan Cydraddoldeb penodol sef 'Delio â Throsedd a Cham-drin ar sail Hunaniaeth'. Yr amcan yw lleihau lefelau achosion gwirioneddol neu ganfyddedig o gam-drin, bwlio, aflonyddu a thrais, trosedd casineb a digwyddiadau casineb yn y fwrdeistref sirol.

Er mwyn mesur yr amcan hwn yn unol â Chynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-2020, mae angen i ni sicrhau bod mesurau monitro ac adrodd gwell mewn lle. Bydd hyn yn arwain at fonitro'n well a chynnydd posibl yn nifer y digwyddiadau. Fodd bynnag, ni ddylid ystyried cynnydd yn nifer y digwyddiadau fel rhywbeth negyddol nac yn arwydd bod y sefyllfa'n gwaethygu. Gellid hefyd gysylltu cynnydd yn nifer y digwyddiadau i well ddealltwriaeth a nodi achosion o fwlio gwahaniaethol a phryd mae'n briodol i'w cofnodi.

Enghraifft o fonitro bwlio gwahaniaethol gwell yw bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, ers 2012, wedi gweithio gydag ysgolion i ddatblygu gwell monitro a chefnogaeth i ddisgyblion ac athrawon wrth ddelio â bwlio homoffobig. Mae'r ffurflen fonitro bwlio gwahaniaethol y mae ein hysgolion bellach yn eu defnyddio yn cynnwys 10 maes o hunaniaeth disgyblion, gan gynnwys bwlio homoffobig, sy'n golygu bod y Cyngor bellach wedi cofnodi data ar ddigwyddiadau homoffobig mewn ysgolion.

Bydd unrhyw ddata a gasglwyd ac adroddiadau a gyhoeddwyd, yn defnyddio cyfansymiau di-enw bob amser, gyda dim ond enghreifftiau o arfer da gan ysgolion unigol, neu'r rhai sydd wedi cael hyfforddiant pwrpasol yn cael eu henwi yn benodol ar unrhyw adeg.

Caiff data ei gasglu a'i adrodd mewn ffyrdd amrywiol er mwyn helpu i nodi tueddiadau, i dargedu cymorth a dangos bod y Cyngor a'r ysgolion yn cydymffurfio â'r dyletswyddau cyfreithiol ynglŷn â'r materion hyn.

Mae bwlio gwahaniaethol yn fater o bryder i bob awdurdod lleol, fodd bynnag mae'r adroddiad hwn yn helpu i ddangos bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a'i bartneriaid yn mynd ati i fonitro'r sefyllfa ac yn mynd i'r afael â'r materion drwy weithio gyda phartneriaid i wneud cynnydd cadarnhaol bob blwyddyn.

Mae 88 o sefydliadau addysg sy'n darparu data monitro i'r Gyfadran Addysg ac mae crynodeb o'r data homoffobig a adroddwyd ar draws yr 16 tymor ysgol sy'n cael eu dangos yn y tabl canlynol;

Blwyddyn Academaidd	Nifer o ddigwyddiadau wedi eu recordio bob tymor		
	Tymor yr Hydref	Tymor y Gwanwyn	Tymor yr Haf
2011-2012			(peilot) 7
2012-2013	2	1	2
2013-2014	3	5	1
2014-2015	7	12	8
2015-2016	12	5	10
2016-2017	54	57	33

Yn ystod y flwyddyn academaidd 2016-2017, darparwyd yr hyfforddiant canlynol i ysgolion o fewn y fwrdeistref sirol. Fe gafodd 8 o fyfyrwyr o Ysgol Gyfun Cwm Rhymni hyfforddiant Ymwybyddiaeth Ddiwylliannol ac fe gafodd 8 o staff o Ysgol Gymraeg Penalltau hyfforddiant Ymwybyddiaeth Cydraddoldeb.

Yn ystod y flwyddyn academaidd hon hefyd, mae Heddlu Gwent, trwy Raglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan (RhGCYCG) wedi cyflwyno nifer fawr o wersi mewn perthynas â materion parch, bwlio ac amrywiaeth ar draws ysgolion cynradd ac uwchradd y fwrdeistref sirol.

Mae'r Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan (RhGCYCG) yn enghraifft o Waith Partneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a phedwar sefydliad Heddlu Cymru ac mae'n cynnwys cyfres o fewnbynnau Atal Troseddau / dosbarthiadau gwersi a mentrau Plismona Ysgolion Cefnogol sy'n anelu at:

- addysgu plant a phobl ifanc am y niwed y gallai camddefnyddio sylweddau achosi i'w hiechyd, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach
- hyrwyddo egwyddorion dinasyddiaeth gadarnhaol trwy gyfrwng addysg
- sicrhau gostyngiad yn lefelau trosedd ac anrhefn yn ein cymunedau ifanc.

O fis Medi 2016 mae'r Rhaglen yn cynnwys y Craidd Critigol, y Ddewislen Darparu a Chymorth a Dargedir fel y nodir isod. Bydd yr holl sesiynau yn parhau i gael eu cyflwyno trwy apwyntiad wedi'i archebu o flaen llaw gyda Swyddog Heddlu Cymunedol yr Ysgol.

Fel y nodwyd uchod, bydd Swyddogion Heddlu Cymunedol yr Ysgol hefyd yn darparu amrywiaeth o Blismona Ysgolion Cefnogol a gweithgareddau diogelu. Bydd y rhain yn cynnwys datrys digwyddiadau gan ddefnyddio Polisi Cyfryngau Troseddau Ysgol a lle bo hynny'n berthnasol, Ymagweddau Adferol. Mae Swyddogion Heddlu Cymunedol yr Ysgol hefyd yn gallu darparu amrywiaeth o gynulliadau ysgol oedran-briodol.

Rhagwelir y bydd rôl ddiogelu gwell yn datblygu ymhellach y cysylltiadau rhwng cymunedau lleol ac ysgolion yn ogystal ag asiantaethau partner, e.e. Gwasanaeth Troseddau Ieuencid, Gwasanaethau Diogelu ac ati.

Cefnogir Swyddogion Heddlu Cymunedol yr Ysgol yn llawn gan wefan benodol - www.schoolbeat.org sy'n cynnwys gwybodaeth bellach ac arweiniad ar gyfer athrawon, disgyblion a rhieni.

Cyflwynwyd cyfanswm o 370 o wersi yn ystod 2016-2017 i 9,092 o fyfyrwyr o ysgolion ar draws y fwrdeistref sirol.

3. Mynediad Corfforol

Rhaglen Waith Hygyrchedd Anabledd

Mae Adran Gwasanaethau Eiddo Corfforaethol y Cyngor yn parhau i ddarparu gwelliannau i wneud adeiladau cyhoeddus yn hygyrch i bawb drwy'r Rhaglen Waith Hygyrchedd Anabledd. Bob blwyddyn mae rhaglen o waith yn cael ei drefnu i ddiweddarau a gwella mynediad corfforol i ystod o adeiladau sy'n eiddo i'r Cyngor.

Yn ystod 2016-2017, cafodd gwerth £108,000 o gyllid ei wneud ar gael er mwyn cynnal gwaith gwella mynediad anabl.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- 1 Adeilad corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
- 2 Leoliad cefn gwlad
- 3 Lleoliad Gwasanaethau Cymdeithasol
- 2 Canolfan addysg gymunedol
- 4 Canolfan hamdden
- 18 Ysgol
- 1 Safle twristiaeth

Gosodwyd gwerth £20,000 o offer cysylltiedig â mynediad i bobl anabl eu gosod yn ein canolfannau hamdden, megis drysau awtomatig a chyfarpar codi arbenigol. Gwelwyd ffigwr tebyg o ran gwelliannau hygyrchedd o fewn canolfannau dydd gwasanaethau cymdeithasol i gefnogi defnyddwyr gwasanaethau. Dyrannwyd £45,000 i'n hysgolion cynradd ar gyfer y flwyddyn ariannol i wneud amrywiaeth o welliannau megis drysau awtomatig, rampiau a gwelliannau derbynfydd.

4. Teilwra Gwasanaethau

Mae'r enghreifftiau canlynol yn dangos sut mae meysydd gwasanaeth y Cyngor wedi teilwra'u gwaith dydd i ddydd i weddu i ofynion ac anghenion y defnyddwyr gwasanaeth unigol - y ddau yn enghreifftiau rhagorol o roi egwyddorion Cydraddoldeb i ddefnydd ymarferol ar gyfer budd pobl yn y fwrdeistref sirol.

a) Chwaraeon Anabledd - Gwasanaethau Hamdden

Mae'r Rhaglen Chwaraeon Anabledd yng Nghaerffili yn fenter ar y cyd rhwng Chwaraeon Anabledd Cymru a'r Awdurdod Lleol. Nod y cynllun yw datblygu cyfleoedd chwaraeon a hamdden cymunedol yn y gymuned ar gyfer pobl anabl ledled Bwrdeistref Sirol Caerffili. Caiff ei hyrwyddo a'i gyflwyno trwy rwydwaith o Swyddogion Datblygu Chwaraeon a Hyfforddwyr Cymunedol sydd ar draws y fwrdeistref sirol.

Mae Chwaraeon Anabledd yn rhedeg clybiau wythnosol ar gyfer plant ac oedolion o bob gallu. Mae'r chwaraeon yn cynnwys pêl-droed, nofio a llawer mwy. Mae Chwaraeon Anabledd hefyd yn cyflwyno rhaglen chwaraeon gweithgaredd gwyliau yn ystod gwyliau ysgol.

Dyma astudiaeth achos Callum Sapey, un o'r gwirfoddolwyr;

Mae Callum yn hyfforddwr ifanc eithriadol sydd wedi dangos cryn ymroddiad i chwaraeon anabledd yng Nghaerffili. Mae ei angerdd am weithio gyda phlant ac oedolion ifanc yng Nghaerffili yn rhywbeth y dylai llawer o hyfforddwyr eraill ymdrechu iddo.

Yn ifanc iawn, dechreuodd Callum fynychu rhaglen gwyliau chwaraeon anabledd i gefnogi ei frodyr sydd ill dau ag anghenion ychwanegol. Daeth fel eu gweithiwr allweddol fel y gallai'r ddau brofi gweithgaredd corfforol. Ni ddaeth Callum o gefndir chwaraeon ei hun ond datblygodd gariad at chwaraeon a pharhaodd i gefnogi ei frodyr ar ddiwrnodau gweithgaredd. Byddai hyd yn oed yn mynychu ar ddyddiau pan nad oedd ei frodyr yn mynychu, er mwyn cefnogi eraill.

Ar ôl bod yn aflwyddiannus yn noson wobrwyo gwirfoddolwyr y llynedd, nid oedd agwedd ac ymroddiad Callum ar gyfer chwaraeon wedi newid mae'n parhau i weithio'n galed iawn wrth ddatblygu ei sgiliau ei hun.

Ers bod yn rhan o'r Tîm Chwaraeon Anabledd, mae Callum wedi cymryd cyfrifoldeb am redeg y 'Pont Dragons - Clwb Pêl-droed Anabledd'.

Mae'r sesiynau'n rhedeg ar nosweithiau Gwener, ac nid dyma'r slot mwyaf deniadol i roi'r gorau i'ch amser rhydd er mwyn gwirfoddoli gyda grŵp heriol o blant ac oedolion ifanc sydd ag anghenion ychwanegol.

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae Callum wedi tyfu i'r clwb i gael 16 o chwaraewr gydag anabledau amrywiol yn bresennol yn rheolaidd. Ar sawl achlysur

byddai Callum yn cerdded dros filltir i'r sesiwn oherwydd nad yw'n gyrru. Mae Callum hefyd yn cynnig ei amser ar ddigwyddiadau ar raddfa fawr a chynghreiriau clwstr. Mae hyn oll i lawr i waith caled ac ymrwymiad Callum i ddatblygu Chwaraeon Anabledd ym mwrdeistref sirol Caerffili.



Elfen arall o'r gwaith yw Gwobrau Chwaraeon Blynyddol Chwaraeon Caerffili, sy'n cydnabod gwaith caled ac ymroddiad gwirfoddolwyr, hyfforddwyr a chlybiau chwaraeon ledled fwrdeistref sirol Caerffili.

Mae rhai o'r categorïau gwobrau'n cynnwys:-

- **Gwirfoddolwr Ifanc y Flwyddyn (dan 18 oed)** - Mae'r wobwr yn cydnabod cyfraniad rhagorol gwirfoddolwr ifanc wrth gael mwy o bobl i ddechrau, aros a/neu lwyddo mewn chwaraeon/gweithgarwch corfforol trwy ddarpariaeth ansawdd uchel
- **Gwobr Hyfforddwr Cynhwysol y Flwyddyn** - Mae'r wobwr ar gyfer unigolyn sydd wedi dangos llawer o ymrwymiad ac angerdd wrth weithio gyda grwpiau targed penodol megis (Menywod a Merched, Hil, Anabledd ac Amddifadedd)
- **Clwb y Flwyddyn** - Mae'r wobwr yn cydnabod y gwaith mae clybiau o fewn y gymuned yn gwneud er mwyn rhoi cyfle a darpariaeth chwaraeon i bawb.

b) Safonau'r Iaith Gymraeg

Mae Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011 wedi disodli Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 ac fel rhan o'r ddeddfwriaeth newydd, yng Nghymru mae gan yr iaith Gymraeg statws cyfreithiol cyfartal gyda'r Saesneg ac ni ddylid ei drin yn llai ffafriol. Nid oes raid i gyrrff cyhoeddus ddatblygu a gweithredu Cynlluniau Iaith Gymraeg bellach ond yn hytrach mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â set o Safonau'r Iaith Gymraeg cenedlaethol.

Mae Comisiynydd yr Iaith Gymraeg wedi cyhoeddi Hysbysiad Cydymffurfio sy'n nodi pa un o'r 176 o safonau yn y ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i'r awdurdod lleol, ynghyd ag unrhyw eithriadau a'u dyddiadau gweithredu.

Mae ein cynnydd yn cael ei gofnodi bob blwyddyn yn yr adroddiad monitro a gwella blynyddol, a gyhoeddir ynghyd â chyflwyniad adroddiad y Cabinet ar ein gwefan [Safonau'r Iaith Gymraeg](#) ar gyfer 2016-2017.

Roedd gofyn i'r Cyngor gyhoeddi dogfen erbyn 30 Mawrth 2016 yn nodi sut y mae'n bwriadu cydymffurfio ar lefel gorfforaethol gyda'r Safonau a beth yw ei brosesau mewnol ar gyfer goruchwyllo a gweithredu'r monitro. Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael ar ein gwefan [Safonau'r Iaith Gymraeg](#).

Gofyniad arall o Safonau'r Iaith Gymraeg oedd llunio a chyhoeddi Strategaeth Iaith Gymraeg 5 mlynedd 2017-2022. Lansiodd y Strategaeth gan y Gweinidog Alun Davies yn yr ŵyl Gymraeg Ffiliffest ym mis Mehefin 2017.

Mae'r strategaeth hon yn nodi sut mae'r awdurdod lleol, mewn cydweithrediad â'i bartneriaid, yn bwriadu hyrwyddo'r iaith Gymraeg ac i hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn ehangach yn y fwrdeistref sirol. Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth am y strategaeth hefyd ar ein gwefan [Strategaeth Iaith Gymraeg 2017-2022](#).



c) **Pride Cymru 2016 – Cyngorau Balch**

Blwyddyn arall lle ddaeth Cyngorau o bob rhan o Dde Ddwyrain a Gorllewin Cymru at ei gilydd i ymgynghori â mynychwyr digwyddiad Pride, gan ofyn iddynt gael adborth i helpu i wella gwasanaethau'r cyngor yn awr ac yn y dyfodol. Gofynnwyd i ymwelwyr ddisgrifio'r prif rwystrau y maent yn eu hwynebu, pa weithgareddau a gwasanaethau wedi ffocysu ar faterion LHDT yr hoffent weld yn eu cymunedau, a sut y gallai cyngorau annog mwy o gyfranogiad gan y gymuned LHDT i helpu llunio gwasanaethau lleol.



Yn gyffredinol, dangosodd canlyniadau'r arolwg fod diffyg dealltwriaeth o beth yw anghenion y gymuned LHDT ac mai dyma'r rhwystr mwyaf a wynebir gan bobl sy'n defnyddio gwasanaethau cyhoeddus. Roedd neges glir gan y rhai a ymatebodd fod angen cael mwy o grwpiau cymorth cymunedol, digwyddiadau i helpu codi ymwybyddiaeth y cyhoedd a mwy o godi ymwybyddiaeth mewn ysgolion.

Mae Cyngorau Balch yn ymrwymedig i hyrwyddo cydraddoldeb mewn gwasanaethau cyhoeddus a dileu'r rhwystrau sy'n wynebu pobl LHDT.

ch) **Grŵp Ieuenctid LHDT+**

Mae tîm Islawr Gwasanaethau Ieuenctid Caerffili yn rhedeg unig grŵp LHDT+ Bwrdeistref Caerffili i bobl ifanc, gan ddarparu amgylchedd diogel a chyfrinachol lle gall pobl ifanc fynegi eu gwir hunain, tra'n cwrdd â phobl ifanc eraill sy'n rhannu'r un profiadau a materion. Mae'r grŵp ar gyfer unrhyw berson ifanc 11-25 oed sy'n nodi'u hunain fel LHDT+ (Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol, Trawsrywiol a Cwiar/Cwestiynu eu rhywioldeb neu hunaniaeth rywiol).

Mae'r grŵp wedi bod yn rhedeg am ychydig dros flwyddyn ac fe'i cynhelir ar ddydd Sadwrn diwethaf y mis o 12.00 - 15.00, gan weithredu fel darpariaeth galw heibio ac ar hyn o bryd mae'n cynnwys 36 o bobl ifanc. Mae'r grŵp yn cael ei arwain gan y bobl ifanc, felly mae'r hyn sy'n digwydd ym mhob sesiwn yn gynhwysol i'r bobl sy'n mynychu.

Mae'r grŵp yn cynnal amrywiaeth o weithgareddau gan gynnwys consolau gemau, gwneud gemwaith, celf a chreffft, coginio a gweithdai ar sail faterion a phroblemau sy'n darparu gwybodaeth a sgiliau trosglwyddadwy y bydd y bobl ifanc yn gallu defnyddio'n hwyrach mewn bywyd.

Mae'r grŵp wedi cefnogi un person ifanc yn llwyddiannus wrth lunio grŵp LHDTTC+ yn ei hysgol ac rydym hefyd wedi anfon negeseuon e-bost at holl ysgolion Bwrdeistref Caerffili i ofyn a allwn ymweld â'r ysgolion i godi ymwybyddiaeth o'r grŵp.

Mae pob aelod o staff yr Islawr wedi cael hyfforddiant mewn materion penodol a allai effeithio ar bobl ifanc LHDTTC+ a phob un yn gwerthfawrogi cydraddoldeb ac yn croesawu amrywiaeth yr holl bobl ifanc sy'n dod i'r grŵp.

Mae'r grŵp LHDTTC+ yn fenter gymunedol wych sy'n codi ymwybyddiaeth a chydraddoldeb y gymuned LHDTTC+. Mae wedi croesawu pobl ifanc nid yn unig o Fwrdeistref Caerffili, ond hefyd o Gasnewydd a Blaenau Gwent. Oherwydd mai unig grŵp LHDTTC+ pobl ifanc o fewn Bwrdeistref Caerffili ydyw, mae wedi cefnogi'r bobl ifanc yn fawr gan fod ganddynt y lle hwnnw nawr lle gallant archwilio teimladau, meddyliau a hunaniaeth yn ddiogel. Drwy redeg grŵp LHDTTC+ o fewn cymuned a hyrwyddo ymwybyddiaeth a chydraddoldeb i bawb, gobeithir y bydd hyn yn gwella ac yn trechu unrhyw stigma sy'n gysylltiedig â'r gymuned LHDTTC+ yn y dyfodol.

d) Cefnogi Cyfamod y Lluoedd Arfog

Mae cymuned y Lluoedd Arfog dros y pum ardal yn Ne Ddwyrain Cymru bellach yn elwa o gyflogi Swyddog Cyfamod Lluoedd Arfog Rhanbarthol, ar ôl sicrhau cyllid ar gyfer y swydd newydd sbon trwy Gronfa'r Cyfamod.

Wedi'i lletya gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, mae Swyddog Cyfamod y Lluoedd Arfog Rhanbarthol yn hwyluso cyflwyno ac ymwybyddiaeth fwy cyson o Gyfamod Cymuned y Lluoedd Arfog ledled Caerffili, Blaenau Gwent, Torfaen, Sir Fynwy a Chasnewydd. Bydd y rôl yn sicrhau arfer gorau ar draws y rhanbarth gan sicrhau ymagwedd gydlynol.

Am ddwy flynedd yn olynol mae Cyngor Bwrdeistref Caerffili wedi cynnal diwrnod y Lluoedd Arfog De Cymru. Gyda mwy na 12,000 o bobl yn bresennol, dechreuodd y diwrnod gyda gorymdaith filwrol trwy ganol y dref, ac roedd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r holl Lluoedd Arfog ynghyd â Dalwyr Baneri, Cyn-filwyr a sefydliadau ieuenctid. Roedd y digwyddiad mawreddog hwn yn gyfle addas i drigolion ac ymwelwyr fel ei gilydd i ddiolch am yr unigolion dewr hynny sydd yn gwasanaethu neu wedi gwasanaethu ein gwlad.



dd) Cefnogi Cymunedau Oed-gyfeillgar

Gweithred Bositif 50+ Caerffili

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gwelwyd camau gweithredu Gweithred Bositif 50+ Caerffili 'Byw'n Hirach, Byw'n Well' sy'n canolbwyntio ar ddatblygu cymunedau Dementia Cyfeillgar, gan rannu gwybodaeth a chyngor trwy'r cyfryngau cymdeithasol ac adeiladu ymhellach ar ein hymgyrch wybodaeth a chyngor llwyddiannus 'Mae Simon yn Dweud'. Rydym hefyd wedi parhau i gyfnerthu a chefnogi Fforwm Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Dyma gipolwg o'r gwaith sydd wedi cael ei wneud'

Cyfryngau Cymdeithasol

